**Sesiwn 2000-2001 Rhif 12**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER 21 MEHEFIN 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 21 MEHEFIN 2000

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gofynnwyd y **4** cwestiwn cyntaf

**2.19pm**

**Cwestiynau i Tom Middlehurst, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed**
Gofynnwyd y **4** cwestiwn cyntaf (tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl)
**2.33pm**
Pwynt o Drefn gan Ieuan Wyn Jones yngln â sylwadau'r Trefnydd am ei uniondeb ef a'i gydweithiwr mewn perthynas â safle tirlenwi Nantygwyddon tra'n cyflwyno'r Datganiad Busnes ddoe. Dywedodd y Llywydd y byddai'n ystyried yr holl bwyntiau a wnaed, ac fe nododd bod y Trefnydd wedi cytuno i ail edrych ar gronoleg y digwyddiadau.

**2.44pm**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Pwnc Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad cynnydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47.

**Nodwyd yr adroddiad**

**Dywedodd y Llywydd wrth y Cynulliad y byddai'r Dirprwy Lywydd yn gyfrifol am gadeirio gweddill y prynhawn.**

**3.48pm**

**Dadl ar Adeilad Newydd y Cynulliad**
Cynnig bod y Cynulliad, ar ôl ystyried y gwaith a wnaed gan swyddogion ac a ddisgrifir yn y ddogfen 'Gwybodaeth am Broject Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin, yn penderfynu mynd am Ddewis E fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno

**Detholwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileu popeth ar ôl y geiriau "Cynnig," a rhoi yn eu lle "nad yw'r Cynulliad, o ystyried materion yn ymwneud â gofynion caffael, diffyg manylion ynglyn â chostau, anawsterau ymarferol a rhwymedigaethau cytundebol mewn perthynas â safle 1E, yn rhoi unrhyw ystyriaeth i gynnig anghyfrifol a sinigaidd y Cabinet i adeiladu dros faes parcio'r cwrt."

**Gwelliant 2 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "mabwysiadu Dewis A fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**Gwelliant 3 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "parhau i symud ymlaen â Dewis B fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**Gwelliant 4 - Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileu popeth ar ôl y gair "penderfynu" a rhoi yn ei le "peidio â symud ymlaen ag unrhyw adeilad newydd".

**Gwelliant 5 - Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Mewnosod 'Cenedlaethol' ar ôl y geiriau 'y Cynulliad'. Dileu'r holl eiriau sy'n dilyn '… Ddewis E' a mewnosod 'er gwaetha'i ddiffygion amlwg'.

**Tynnwyd Gwelliant 1 yn ôl.**

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 2**

O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 49; Cyfanswm 57.

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 57.

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - ni chafwyd pleidlais gan fod y Cynulliad eisoes wedi pleidleisio yn erbyn Dewis A ar welliant 2.**

**Tynnwyd Gwelliant 5 yn ôl.**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 9; Cyfanswm 57.

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd.**

**4.55pm**

**Dadl Fer:**

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru); Adeiladu Argaeau a Chymunedau Lleol**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 27 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 20 MEHEFIN 2000**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ail Adroddiad y Pwyllgor Safonau 2000

Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth - Adroddiad i'r Cynulliad

Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain - Adroddiad i'r Cynulliad

Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin - Adroddiad i'r Cynulliad

Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd - Adroddiad i'r Cynulliad

Pwyllgor Busnes - Adroddiad i'r Cynulliad ar Gynigion i Newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 26.1

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC104) - Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC102) - Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC105) - Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2000

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC106) - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC107) - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2000

Adroddiad i'r Pwyllgor Deddfau (LC108) -Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Pwyllgor Materion Ewropeaidd Adroddiad 1999-2000

-----------------------------7d02082ad5032c Content-Disposition: form-data; name="add_id_1"